PWYLLGOR CRAFFU ADOLYGU POLISI A CHRAFFU PERFFORMIAD

DYDD MERCHER, 16 IONAWR 2019

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Walker(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Berman, Bowen-Thomson, Boyle, Cunnah, Lister a/ac Mackie |

52 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Y Cynghorydd Hudson

53 : DATGAN BUDDIANNAU

Roedd gan yr Aelodau gyfrifoldeb dan Erthygl 16 Cod Ymddygiad yr Aelodau i ddatgan unrhyw fuddiant ac i gwblhau ffurflenni Buddiant Personol ar ddechrau'r eitem agenda dan sylw.

| CYNGHORYDD | EITEM | RHESWM |
|---|---|---|
| Bowen-Thomson | Cynllun Corfforaethol | Personol |
| Mackie | Cynllun Corfforaethol | Personol |

54 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr 2018 yn gofnod cywir, ac fe’u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

55 : CYNLLUN CORFFORAETHOL 2019-22

Croesawodd y Cadeirydd y canlynol:

- Y Cynghorydd Huw Thomas, Arweinydd y Cyngor
- Paul Orders, Prif Weithredwr
- Christine Salter, Cyfarwyddwr Corfforaethol, Adnoddau
- Gareth Newell, Rheolwr Polisi
- Dylan Owen, Pennaeth Swyddfa’r Cabinet

Dywedodd y Cadeirydd wrth y Pwyllgor bod hyn bellach yn gyfle i graffu ar ddatblygiad polisi yn fersiwn ddrafft y Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2019-22. Roedd hyn yn rhoi cyfle i’r Aelodau gyfeirio datblygiad y Cynllun. Byddai’r Pwyllgor yn cael cyfle arall i ystyried y drafft terfynol ar 20 Chwefror 2019 cyn ei gyflwyno mewn cyfarfod ffurfiol o’r Cabinet. Y diben heddiw oedd craffu ar y strwythur a’r cyfeiriad cyffredinol a amlinellwyd yn y Cynllun Corfforaethol a’r broses i’w ddatblygu.

Gwahoddwyd yr Arweinydd i wneud datganiad.

Croesawodd yr Arweinydd fewnbwn cynnar y Pwyllgor i’r Cynllun Corfforaethol a fyddai’n cyfrannu at lunio ei gynnwys a gwella ymgysylltu. Roedd y Cynllun yn ddogfen allweddol wrth gyflwyno Uchelgais Prifddinas, gan gynnwys mabwysiadu’r

saith Amcan Lles.  Roedd cychwyn wedi'i roi ar gyflawni elfennau allweddol y Cynllun, er enghraifft gwelliannau mewn canlyniadau TGAU, cynlluniau tai cyngor newydd a chyflwyno Cynllun Nextbike.

Gwrandawodd y Pwyllgor ar gyflwyniad a oedd yn nodi'r prif bwyntiau canlynol:

- Fframwaith Polisi – Cyflawni Uchelgais Prifddinas
- Strwythur y Cynllun Corfforaethol – 7 Amcan Lles
- Pennod Enghreifftiol o'r Cynllun Corfforaethol
- Datblygu'r Cynllun: Adolygu ac Ymgysylltu
- Datblygu'r Cynllun: Ymgysylltu â Chraffu
- Ymateb i Graffu
- Y Camau Nesaf: Panel Perfformiad:

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am y cyflwyniad gan wahodd cwestiynau gan y Pwyllgor.

Tynnwyd sylw gan y Pwyllgor at Amcan Lles 1.1. Roedd y pwyllgor o'r farn bod y Cynllun yn gyfle i amlygu cyrhaeddiad addysg yng Nghyfnod Allweddol 4 ac ar Safon Uwch, a hefyd i gyfeirio at nifer yr ysgolion a oedd wedi'u hasesu'n dda neu'n well.

Hysbyswyd yr Aelodau fod newidiadau i'r Dangosyddion Cenedlaethol wedi effeithio ar sut roedd addysg yn cael ei mesur.  Byddai'r Swyddog yn gwirio statws y categorïau ac yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor.

Roedd Uchelgais Prifddinas yn sicrhau bod pob ysgol yn dda, ac er y newidiwyd iaith yr asesu, roedd y dyhead yno a byddai'n parhau.

Rhoddwyd y manylion diweddaraf am y Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer mesur perfformiad Cymraeg a'r hyfforddiant a oedd yn cael ei roi i gefnogi Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2017-2022.

Tynnwyd sylw gan aelodau'r Pwyllgor at y DPA a oedd ar waith i gefnogi pobl ifanc, yn benodol mewn gofal maeth, gan ganolbwyntio ar bobl ifanc yn aros gyda'u teuluoedd.

Tynnwyd sylw gan y Pwyllgor ar Amcan 1.4 i foderneiddio'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid, sy'n cael ei fesur ar hyn o bryd gan nifer y plant sy'n cyrraedd y system cyfiawnder troseddol. Awgrymodd rhai o'r Aelodau y dylid ategu hyn trwy fesur nifer y plant sy'n aildroseddu.  Efallai nad yw nifer y plant sy'n cyrraedd y system yn ganlyniad negyddol; y canlyniad cadarnhaol oedd osgoi aildroseddu a dylid mesur hynny.

Roedd aelodau o'r Pwyllgor yn credu y dylai'r Cynllun gynnwys cyfeiriadau cryfach at anghydraddoldebau iechyd, gan gynnwys gordewdra a Chynllun  Teithio Llesol sy'n gysylltiedig â chynlluniau ysgolion.  Dylai fod mwy o gyfeiriad at reoli gwastraff gan gynnwys ailgylchu a Chanolfan Ailgylchu Gwastraff Cartref newydd.

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor am yr ysgogwyr sydd ar waith i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw a chreu cymunedau cryfach.  Roedd Asesiadau Gwella Iechyd yn cael eu cynnal a'u hyrwyddo gan bartneriaid gan gynnwys Iechyd Cyhoeddus Cymru a oedd yn

arwain dewisiadau ffyrdd iach o fyw.  Roedd hyn yn cael ei fonitro gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a byddai'n rhan o'i fframwaith.

Roedd gwelliannau i ailgylchu'n parhau ac nid oedd unrhyw newidiadau ar draws y ddinas o ran y fethodoleg yn cael eu rhagfynegi. Roedd adroddiad gan y Cabinet am y CAGC newydd arfaethedig a Strategaeth Strydlun newydd yn cael eu datblygu a byddai'r Aelodau'n cael eu hysbysu o'r cynnydd diweddaraf.  Roedd trafodaethau hefyd yn parhau ag undebau llafur ynglŷn â mesur a gwella cynhyrchedd o ran rheoli gwastraff.  Byddai'r trafodaethau'n ymdrin â data casglu craidd a data meincnodi er mwyn nodi setiau craidd a thargedau ailgylchu yn y dyfodol.

Gofynnodd y Pwyllgor am absenoldeb salwch a'r effaith ar les staff gan awgrymu y dylid ystyried strwythurau sefydliadol i gefnogi cyflogeion yn y dyfodol.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau y byddai gwaith yn cael ei adolygu o ran cyfranogaeth staff a gwaith arolwg staff, gan gynnwys meincnodi ynghyd ag awdurdodau lleol eraill.

Roedd y Pwyllgor yn pryderu ei bod yn ymddangos – yn sgil craffu ar y Cynllun Corfforaethol y llynedd a'r llythyr a oedd yn amlinellu pryderon ynghylch mesurau perfformiad mewn Datblygiad Economaidd – mai ychydig iawn oedd wedi newid o ran Amcan 2.1 a oedd yn amlwg o ysgafn o'i gymharu â nifer y Dangosyddion Perfformiad Allweddol a nodwyd i fesur amcanion eraill.

Rhoddwyd enghraifft i'r Pwyllgor a oedd yn dangos nifer isel o swyddi'n cael eu creu ac effaith hyn ar y DPA.  Byddai'r Cynllun yn adlewyrchu'r newid yn y dyfodol.

Roedd aelodau'r Pwyllgor yn pryderu am y bwriad i leihau'r defnydd o asiantaethau a nodwyd yn y Cynllun.  Roedd angen mwy o waith i nodi'r meysydd lle gallai'r Cyngor gyflwyno cais dros ddefnydd tymor byr o staff asiantaethau a'r camau gweithredu a fyddai'n angenrheidiol i leihau neu gael gwared ar waith asiantaethau mewn achosion eraill.

Rhoddwyd sicrwydd i'r Pwyllgor fod tueddiadau gostyngol yn amlwg, er bod lle i staff asiantaethau gefnogi'r Cyngor am dymor byr. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod cryn welliant wedi'i wneud a oedd yn gysylltiedig â chynllunio'r gweithlu a gweithio gyda Phrifysgol Caerdydd.  Roedd yn hanfodol sicrhau bod y system raddio gyfredol yn iawn a fyddai hefyd yn cyfrannu at y sefyllfa bresennol o ran rheoli gwastraff.

Awgrymodd y Cadeirydd fod cyfle i wneud gwaith ynglŷn â staff asiantaethau.

PENDERFYNWYD: CYTUNODD y Pwyllgor y dylai'r Cadeirydd ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu eu sylwadau a'u harsylwadau.

## 56 : DIWEDDARIAD AM Y WEITHDREFN GWAREDU EIDDO

Nododd y Cadeirydd fod y Pwyllgor wedi ystyried galw i mewn o ran gwaredu CAGC Heol Wedal.  Wrth gyfeirio'r penderfyniad yn ôl, tynnodd y Pwyllgor sylw at y posibilrwydd i'r Cyngor ailystyried y protocol gwaredu, gan annog y gwasanaeth i

gynnal adolygiad ar frys.  Yn sgil yr argymhellion, roedd gweithdrefnau wedi cael eu symleiddio i sicrhau bod systemau cadarn ar waith.

Gwahoddwyd Helen Thomas a Nia Morgan gan y Cadeirydd i roi cyflwyniad i'r Pwyllgor a amlinellodd y canlynol:

- Gwybodaeth Gefndir am y Rhaglen Waredu
- Statud/Rheolau Arweiniad Cyfredol
- Camau Gweithredu yn sgil Craffu
- Y Weithdrefn a'r Broses Arweiniad ar gyfer Gwaredu – Asedau Dros Ben
- Taflen Penderfyniadau Eiddo er gwybodaeth
- Ffurflen Waredu er gwybodaeth

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am y cyflwyniad gan wahodd cwestiynau gan y Pwyllgor.

Gofynnodd y Pwyllgor a fyddai gwaredu Heol Wedal wedi cael ei drin mewn modd gwahanol petasai'r gweithdrefnau newydd ar waith.

Esboniodd swyddogion y byddai canlyniad Heol Wedal wedi bod yr un peth; fodd bynnag, byddai'r ddogfennaeth wedi bod yn wahanol.  Cymeradwywyd y broses werthuso ei chymeradwyo gan Lywodraeth Cymru a'i phrofi ar y cyd ag awdurdodau lleol.

Rhoddwyd gwybodaeth i'r Pwyllgor am sut byddai'r arolygon yn cael eu dogfennu trwy ddefnyddio'r daflen benderfyniadau newydd.

Bu'r Aelodau yn trafod y broses sydd ar waith i ddiogelu eiddo a werthir gan y Cyngor a sut mae rhai adeiladau'n dadfeilio neu'n cael eu dymchwel yn llwyr.

Rhoddwyd sicrwydd i'r Pwyllgor bod gweithdrefnau ac arweiniad ar waith i gyd-fynd â mesurau rheoli datblygu i sicrhau y cedwir at gyfarwyddiadau datblygu allweddol.

Roedd yn dda gan Aelodau'r Pwyllgor glywed bod y prosesau newydd ar waith yn well gan Swyddogion a'u bod yn cefnogi pob cyflogai.

PENDERFYNWYD: Croesawodd y Pwyllgor y broses newydd a CHYTUNWYD nodi, yn hytrach nag ysgrifennu at yr Aelod Cabinet.

57 : PRYNU CERBYDAU AR FRYS

Cafodd y Pwyllgor ei friffio am benderfyniad brys gan y Cabinet i brynu Cerbydau Casglu Gwastraff a Pheiriannau Graeanu Ffyrdd.

Gwahardd y Cyhoedd
Mae atodiadau'r adroddiad wedi'u heithrio rhag cyhoeddi gan eu bod yn cynnwys gwybodaeth wedi'i heithrio rhag y disgrifiad sydd ym mharagraff 4 Rhan 4 a pharagraff 21 Rhan 5 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.  Gellir gwahardd y cyhoedd rhag dod i'r cyfarfod trwy benderfyniad y Pwyllgor yn unol ag Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 wrth i'r eitem hon gael ei thrafod.

PENDERFYNWYD:  CYTUNODD y Pwyllgor ar y canlynol:

- Nodi'r briffio, cytundeb y Cadeirydd bod y penderfyniad yn frys ac felly na fydd y weithdrefn galw i mewn yn berthnasol.
- Nodi y byddai adroddiad am y penderfyniad brys hwn yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor llawn ar 31 Ionawr 2019, yn unol â chyfansoddiad y Cyngor,
- Dylai'r Cadeirydd ymateb ar ran y Pwyllgor i ohebiaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio ynglŷn â'r mater hwn.

58 : EITEMAU BRYS - UFA

Dim

59 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF – 20 CHWEFROR 2019 AM 1:30 AM

Daeth y cyfarfod i ben am Time Not Specified